# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Clinig Deintyddol, Canolfan Gofal Sylfaenol Treharris / Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 25 Ebrill 2017

Dyddiad cyhoeddi: 9 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9591-3



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 11

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth nesaf? ........ 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 21

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 22

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 23

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r clinig deintyddol yng Nghanolfan Gofal Sylfaenol Treharris, Stryd Fox, Treharris, CF46 5HE, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 25 Ebrill 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC cynorthwyol (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd adborth cleifion yn holiaduron AGIC yn darparu safbwyntiau cadarnhaol am y gwasanaeth a'r driniaeth yn y practis hwn
- Roedd gan y staff i gyd fynediad at raglen hyfforddi ac roedd eu hyfforddiant yn gyfredol
- Roedd y staff wedi llunio system adborth i gasglu adborth gan gleifion.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i waith papur/tystysgrifau fod ar gael yn y practis i ddangos cydymffurfiaeth â chyfarpar/prosesau
- Mae angen swyddog cymorth cyntaf ymhlith y tîm deintyddol
- Mae angen gwella nodiadau cleifion, yn benodol mae angen i gynlluniau triniaeth gael eu llofnodi ar gyfer pob gweithdrefn Band 2 a 3, ac mae angen cofnodi gwaith sgrinio ar gyfer canser y geg
- Mae angen polisi dadebru lleol.

Gweler Atodiad C am bob gwelliant.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae'r clinig deintyddol yng Nghanolfan Gofal Sylfaenol Treharris yn rhan o Wasanaeth Deintyddol Cymunedol Caerdydd a'r Fro ac yn gyfarwyddiaeth o fewn y Bwrdd Clinigol Deintyddol.

Gofal Sylfaenol Cwm Taf yw'r comisiynwyr a'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yw'r darparwyr ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Mae'r staff sy'n gweithio yn y clinig deintyddol yn gyflogeion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi un deintydd i gyflenwi'r gwasanaeth a nyrsys deintyddol i weithio yn yr ardal glinigol/derbynfa.

Cyflogir uwch-swyddog deintyddol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i reoli'r gwasanaeth.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dangosodd adborth gan gleifion yn holiaduron AGIC fod y cleifion yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn a'r wybodaeth a ddarparwyd. Gwnaethom argymell bod y practis yn cychwyn system i gofnodi unrhyw sylwadau a dderbynnir ar lafar, a fydd yn mwyhau'r trefniadau eraill sydd ar waith i gasglu adborth gan gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Mae'r practis deintyddol yn benigamp*
>
> *Gwasanaeth da iawn yn Nhreharris*
>
> *Fodlon iawn ar hyn o bryd ar y gwasanaeth a'r safon*
>
> *Mae'r deintydd a'r nyrsys wastad wedi bod yn barod eu cymwynas ac maent yn esbonio popeth*

### Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y mannau aros, gan gynnwys taflenni a phosteri gwybodaeth ar gyfer plant a gwybodaeth benodol ynghylch gwahanol fathau o driniaeth a gwybodaeth ataliol. Gwnaethom nodi bod posteri'r GIG yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos y tu allan i brif fynedfa'r dderbynfa/man aros, a wnaeth gadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth adeiladau di-fwg.

## Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Canfuom fod lle i staff gael trafodaethau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Cytunodd pawb eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym fod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau oedd ar gael pan oedd angen triniaeth arnynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod cost y driniaeth wedi'i gwneud yn amlwg iddynt cyn iddynt dderbyn triniaeth, a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym hefyd eu bod yn deall sut yr oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd ychydig o wybodaeth a phosteri i gleifion a oedd wedi'u harddangos yn y man aros yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Dywedodd un claf nad oedd erioed wedi gallu siarad â staff yn Gymraeg pan oedd yn dymuno gwneud.

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd rhif ffôn cyswllt brys at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos ar ddrws prif fynedfa'r ddeintyddfa, yn ogystal ag yn y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod y rhif cyswllt y gallai'r cleifion ei ffonio mewn argyfwng yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth adborth gan yr holl gleifion a gwblhaodd ein holiaduron gadarnhau bod y tîm deintyddol wedi trafod â nhw sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach.

### Hawliau pobl

Roedd cynllun agored i fan aros y practis. Gellid cynnal sgyrsiau preifat â chleifion yn yr ystafelloedd triniaeth ac roedd digon o le yn y practis i wneud galwadau ffôn preifat pe bai angen. Roedd y drefn hon yn sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn y practis. Roedd poster a thaflenni 'Gweithio i Wella' y GIG wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Dywedodd y staff wrthym fod y brif swyddfa, yr oedd ganddi systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gŵynion am y practis, yn ymdrin â chŵynion. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am gŵynion yn cael ei thrafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhanbarthol i sicrhau dysgu a newid, pe bai'n berthnasol.

Roedd y staff yn y practis wedi llunio system ar gyfer casglu adborth cleifion, gyda blwch awgrymiadau wedi'i osod yn y dderbynfa. Roedd sylwadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhannu yn y cyfarfodydd tîm rhanbarthol. Roedd y system hon yn sicrhau bod yr holl safbwyntiau (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) yn cael eu rhannu â'r bwrdd iechyd ac yn rhoi trosolwg ychwanegol o'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer y grŵp cleifion.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff nad oedd dull ffurfiol ar waith i gasglu unrhyw sylwadau a wnaed ar lafar, a gwnaethom argymell bod system i gofnodi sylwadau llafar yn cael ei chyflwyno.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen rhoi system ar waith i gofnodi a chasglu unrhyw sylwadau a wneir ar lafar.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Er gwaethaf absenoldeb tystysgrifau ar gyfer yr offer pelydr-X, roeddem yn fodlon bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ddiogel.

Roedd y cyfleusterau a'r amgylchedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Gwnaethom argymell bod cofnodion cleifion yn cael eu gwella trwy sicrhau bod cynlluniau triniaeth yn cael eu llofnodi ar gyfer yr holl weithdrefnau Band 2 a 3, a bod achosion o sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael eu cofnodi.

Mae angen adolygu trefniadau cymorth cyntaf ac rydym yn argymell bod staff deintyddol yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf i sicrhau y gellir ymdrin ag argyfwng yn gyflym.

### Gofal diogel

Rhoddwyd sylw i'n pryderon ynghylch tystysgrifau absennol ar gyfer cynllun cynnal a chadw'r awtoclaf a'r cywasgydd dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei gadw dan glo mewn stordy. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu yn yr un bin a gasglwyd â gwastraff y meddygon o'r clinigau i fyny'r grisiau yn y ganolfan.

Roedd trefniadau ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Roedd y practis deintyddol wedi'i leoli mewn canolfan iechyd amlbwrpas. Bwrdd Iechyd Cwm Taf sy'n gyfrifol am yr adeilad a'r gwaith cynnal a chadw. Roedd yn amlwg bod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan, ac roedd yr holl fannau yn y practis yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl ystafelloedd triniaeth a'r dderbynfa/man aros wedi'u lleoli ar y llawr daear, gan alluogi pobl ag anawsterau symudedd i gael mynediad atynt. Roedd toiledau'r cleifion yn dra hygyrch. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, nid oedd gan y toiled i bobl ag anabledd gyfleusterau i gael gwared ar gynhyrchion hylendid benywaidd. Mae angen rhoi bin hylendid benywaidd yn y toiled i bobl ag anabledd oherwydd y dywedwyd wrthym fod y cyfleuster hwn yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan yr holl gleifion.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o amgylch y practis a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Yn ogystal, mae'r clinig deintyddol yn ymgymryd â'i wiriadau rheoli diogelwch tân ei hun a gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n fisol. Mae gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf, sy'n berchen ar ac yn rheoli'r adeilad, y cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal a chadw'r larymau a'r systemau tân.

Am fod bwrdd iechyd gwahanol yn berchen ar ac yn rheoli'r adeilad a'r gwaith cynnal a chadw, nid oedd rhai agweddau ar y gwaith papur rydym yn gofyn am gael gweld yn rheolaidd yn ystod ymweliad ar gael. Er i'r staff sôn wrthym ni am y trefniadau ar gyfer casglu gwastraff peryglus (clinigol), nid oeddem yn gallu gweld tystiolaeth o'r cytundeb ar waith, gan gynnwys y contract cynnal a chadw offer tân. Gwnaethom argymell, pan fo'r llinellau cyfrifoldeb wedi'u rhannu, bod tystiolaeth glir ynghylch at bwy ac i ble y dylid mynd i gael y wybodaeth angenrheidiol, yn ddelfrydol gyda mynediad at gopïau o waith papur/contractau angenrheidiol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen sicrhau bod bin hylendid benywaidd ar gael ar bob amser yn y toiled i bobl ag anabledd sydd yn y clinig deintyddol.

Mae angen i fyrddau iechyd (yn benodol Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro) sicrhau, pan fo llinellau cyfrifoldeb wedi'u rhannu, bod mynediad at waith

papur/contractau angenrheidiol ar gael.

### Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Dangosodd ein harsylwadau fod y broses hon yn foddhaol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol gerllaw'r ystafell driniaeth
- Sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd cyfarpar diogelu personol, megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Roedd llyfrau cofnodion wedi cael eu cadw ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio, gan gynnwys profion dyddiol.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1] Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn ymdrin â chynnwys cynhwysfawr. Fodd bynnag, roedd yr archwiliad wedi cael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2015, a gwnaethom gynghori bod angen i'r archwiliad gael ei gwblhau'n flynyddol, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd yr arwyddion yn yr ystafell ddadheintio i ddynodi'r llif o'r mannau 'glân' i'r mannau 'budr' yn nodwedd fanteisiol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ac i atal croes-heintio yn y mannau glân.

Gwelsom fod y staff yn nodi ar gydau storio'r offer y dyddiad y cawsant eu prosesu, ond gwnaethom argymell eu bod yn cofnodi dyddiad dod i ben hefyd.

---

1 Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)] yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd tystysgrifau ar gael ar gyfer yr awtoclaf a'r cywasgydd i dystio'r cynllun cynnal a chadw. Amlygodd trafodaethau â'r staff fod y rhain yn cael eu cadw'n ganolog gan y bwrdd iechyd. Mae'n hanfodol bod y bwrdd iechyd yn rhoi'r tystysgrifau gwreiddiol, neu gopïau ohonynt, i'r practis i ddangos bod yr holl wiriadau'n gyfredol. Mae'r dystiolaeth hon yn ofynnol yn ystod arolygiad i ddangos cydymffurfiaeth.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion) ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd polisi dadebru ar waith, ond gwnaethom argymell bod polisi lleol yn cael ei gynhyrchu sy'n benodol i'r gwasanaeth.

Gwelsom dystysgrif swyddog cymorth cyntaf, ond nid oedd yr unigolyn yn gweithio yn y practis. Dywedodd y staff wrthym y byddent, mewn argyfwng, yn cysylltu â meddygon a/neu nyrsys y practis meddygon teulu sydd i fyny'r grisiau. Nid oedd unrhyw beth ar gael i gadarnhau'r trefniadau hyn rhwng y ddau bractis, a gwnaethom argymell bod y staff yn y practis deintyddol yn derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Gwnaethom adolygu'r pecyn cymorth cyntaf ac argymell bod baddon llygaid yn cael ei ychwanegu at y cyfarpar.

Gwelwyd bod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli â'u dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).[2] Fodd bynnag, pe bai unrhyw gyffuriau wedi'u defnyddio, byddai'r pecyn cyfan yn cael ei newid.

---

2

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygiad o'r trefniadau cymorth cyntaf i sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf enwebedig, penodedig ar gael mewn argyfwng.

Mae angen baddon llygaid ar y pecyn cymorth cyntaf.

Mae angen polisi dadebru penodol ar gyfer y practis deintyddol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau/rôl mewn argyfwng.

### Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd polisïau diogelu ar waith gan y practis i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.  Mae'r practis deintyddol yn dilyn gweithdrefn ddiogelu Caerdydd a'r Fro ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a gyflenwir ar gyfer cleifion. Dywedodd y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant, ac roedd angen i un aelod o staff dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y practis offer pelydr-X, ond nid oeddem yn gallu cael mynediad at yr holl ddogfennau i sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn unol â safonau a rheoliadau presennol. Gwelsom fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar waith, ond nid oedd y llythyr hysbysu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n cydnabod bod gweithdrefnau pelydr-X yn cael eu cynnal yn y practis ar gael. Cadarnhaodd y staff fod hwn yn cael ei gadw'n ganolog gan y bwrdd iechyd.

Nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau i ddangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu’n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Y dyddiad ar y dystysgrif archwiliad critigol a oedd ar gael oedd 2011, ond nid oedd dim wedi'i gofnodi i ddangos bod yr archwiliadau critigol hyn wedi cael eu cwblhau bob tair blynedd. Gwelsom dystysgrifau i gadarnhau bod gwiriadau blynyddol wedi cael eu cwblhau.

Canfuom fod y deintydd sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Roedd hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Nid oedd y nyrsys deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), a gwnaethom argymell eu bod yn gwneud.

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd delweddau pelydr-X cleifion yn cael ei raddio a'i gofnodi. Byddai hyn yn amlygu problemau posibl â'r broses o dynnu delweddau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau, pe bai angen, i sicrhau bod penderfyniadau am ofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cefnogi gan sganiau pelydr-X da a chlir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r holl nyrsys deintyddol gwblhau hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), yn unol â gofynion eu cofrestriad proffesiynol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis wedi cwblhau rhywfaint o archwiliadau, gan gynnwys rheoli heintiau, archwiliad rhagnodi, ac archwiliadau argroenol a gwblhawyd gan hyfforddeion gofal deintyddol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cadarnhaodd trafodaethau â staff fod grŵp ansawdd a diogelwch yn cwrdd yn rheolaidd a bod mynychwyr y grŵp yn trafod archwiliadau a digwyddiadau. Nid oedd system ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid o'r staff clinigol, a gwnaethom argymell y byddai hyn o fudd i'r staff am fod rhai'n gweithio ar wahân i ddeintyddion eraill.

---

3 Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cyflwyno rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar gyfer y staff clinigol.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bump o gofnodion cleifion y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod rhai problemau a oedd angen sylw, gan gynnwys:

- Mae angen i gynlluniau triniaeth gael eu llofnodi ar gyfer yr holl weithdrefnau Band 2 a 3, nid y gweithdrefnau Band 3 yn unig a welsom ar adeg ein hymweliad.
- Mae angen cofnodi sgrinio ar gyfer canser wrth archwilio, nid archwiliadau o feinwe feddal yn unig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwella cofnodion cleifion trwy sicrhau bod yr holl gynlluniau triniaeth yn cael eu llofnodi ar gyfer gweithdrefnau Band 2 a 3, a thrwy sicrhau bod sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael ei gofnodi.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom ystyried hefyd sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth o waith tîm da yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, ond, er hynny, gwnaethom argymell y dylid symleiddio'r copïau papur o'r polisïau a'r gweithdrefnau yn y practis a sicrhau er cysondeb bod ganddynt oll ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu.

### Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn comisiynu'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yng Nghanolfan Gofal Sylfaenol Treharris gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Bwrdd Iechyd Cwm Taf sy'n berchen ar ac yn rheoli'r adeilad, tra bod yr holl wasanaethau eraill a'r staff yn rhan o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Gwnaeth y trefniad hwn beri rhai problemau ar gyfer y broses arolygu oherwydd cyfrifoldebau rhanedig rhai meysydd (amlygir problemau penodol yn yr adroddiad hwn), ac argymhellir bod y byrddau iechyd yn sicrhau bod mynediad at waith papur perthnasol yn ddichonadwy.

### Staff ac adnoddau

#### Y gweithlu

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel ac yn amserol. Roedd hyn yn cael ei ategu gan arlwy o bolisïau a gweithdrefnau. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny hefyd trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael ar-lein, ond roedd gan y

practis ffolderi yn cynnwys copïau caled ohonynt i'r staff gael mynediad atynt. Gwnaethom nodi bod gan rai polisïau ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu, ond nid oedd hyn yn wir am rai eraill. Argymhellir, er cysondeb, bod yr holl ddogfennau'n cynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu.

Roedd y ffolderi gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau a oedd wedi dod i ben. I osgoi unrhyw ddryswch, argymhellir bod hen ddogfennau'n cael eu tynnu er mwyn sicrhau mai'r dogfennau perthnasol yn unig sy'n hygyrch.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus yn gwneud eu swyddi a'u bod yn derbyn y gefnogaeth a'r hyfforddiant yr oedd eu hangen arnynt. Canfuom hefyd fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn cwrs sefydlu, a'u bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau ac yn ymgymryd â hyfforddiant hanfodol.

Roedd system ar waith i staff gael arfarniad, a oedd yn sicrhau bod gan y staff gyfleoedd i fyfyrio ar eu gwaith a nodi unrhyw hyfforddiant perthnasol y gallent fod ei angen. Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi, gan ddangos tystiolaeth o'r trafodaethau.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system ar waith i amddiffyn cleifion a staff rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd gan bob aelod o staff dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith, a oedd yn rhoi sicrwydd bod y staff yn addas i weithio gyda phlant ac oedolion a allai fod yn agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw'r tystysgrifau'n cael eu hadnewyddu’n rheolaidd, felly roedd y tystysgrifau a welsom sawl blwyddyn yn hen.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r ffeiliau polisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau mwyaf perthnasol.

Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau gynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant yn weithredol ac yn strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y datryswyd y pryder |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith | | | |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Clinig Deintyddol, Canolfan Gofal Sylfaenol Treharris

## Dyddiad yr arolygiad: 25 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Canfyddiadau<br><br>Cafodd ystafell ddadheintio ar wahân ei gosod, ac roedd yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodwyd yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).<br><br>Roedd cyfarpar dadheintio i'w weld mewn cyflwr da, ac roedd cofnodion ysgrifenedig wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrifau ar gyfer cynllun cynnal a chadw'r awtoclaf a'r cywasgydd ar gael. | Safonau Iechyd a Gofal: Safon 2.4;<br><br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | • Datblygu amserlen cynnal a chadw/gwasanaethu<br><br>• Cadarnhau'r prosesau â Chwm Taf ar gyfer darparu tystysgrifau cynnal a chadw ar unwaith<br><br>• Cynnal cofnod o weithgarwch cynnal a chadw/gwasanaethu chwarterol a blynyddol, gan gynnwys tystysgrifau. | Arweinydd Llywodraethu ac Ansawdd, Bwrdd Clinigol Deintyddol | Diwedd Mai 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dangosodd trafodaethau â'r staff fod y tystysgrifau hyn wedi'u cadw'n ganolog gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn rhoi'r tystysgrifau gwreiddiol, neu gopïau ohonynt, i'r practis fel tystiolaeth bod yr holl wiriadau'n gyfredol. Mae'r dystiolaeth hon yn ofynnol yn ystod arolygiadau i ddangos cydymffurfiaeth.<br><br>Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn datgan y dylid cadw holl gofnodion y gweithdrefnau hyn at ddibenion archwilio ac arolygu, ac nid fel yna oedd hi ar adeg ein hymweliad.<br><br>Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith<br><br>Rhaid anfon tystysgrifau cynllun cynnal a chadw'r awtoclaf a'r cywasgydd at AGIC fel tystiolaeth bod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer y broses ddadheintio. | (Diwygiad 1): Pennod 2, Pennod 4 a Phennod 11 | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Cymeradwywyd y cynllun gan: Dinah Jones, Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol**

**Enw (llythrennau bras): Rowena Griffiths, Rheolwr Llywodraethu ac Ansawdd, 23 Mai 2017**

**Wedi'i gymeradwyo'n derfynol gan:**

**Hayley Dixon**

**Swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau**

**Dyddiad: 23 Mai 2017**

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Clinig Deintyddol, Canolfan Gofal Sylfaenol Treharris

## Dyddiad yr arolygiad: 25 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen rhoi system ar waith i gofnodi a chasglu unrhyw sylwadau a wneir ar lafar. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Mae gan y Bwrdd Clinigol Deintyddol ffurflen pryderon 'llafar' sy'n cael ei defnyddio i gasglu pryderon 'ar y pryd' yn unol â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG. Mae hon wedi cael ei rhoi ar waith ledled Cyfarwyddiaeth y Gymuned a'r Ysbyty. Rydym wrthi'n adolygu ac yn datblygu Fframwaith Adborth gan Gleifion, a byddwn yn ystyried dulliau ar gyfer casglu sylwadau a wneir ar lafar yn ystod y broses hon. | Rheolwr Llywodraethu ac Ansawdd | Medi 2017 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen sicrhau bod bin hylendid benywaidd ar gael ar bob amser yn y toiled i bobl ag anabledd sydd yn y clinig deintyddol. | Rheoliadau'r Gweithle 1992 (Iechyd, Diogelwch a Lles) | Mae bin hylendid benywaidd wedi cael ei osod yn y toiled i bobl ag anabledd. | Rheolwr Nyrsio Deintyddol | Cwblhawyd |
| Mae angen i fyrddau iechyd (yn benodol Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro) sicrhau, pan fo llinellau cyfrifoldeb wedi'u rhannu, bod mynediad at waith papur/contractau angenrheidiol ar gael. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrthi'n cael ei adolygu. Bydd trefniadau o ran cael mynediad at waith papur a chytundebau angenrheidiol yn cael eu cytuno a'u rhannu yn ystod y broses hon. | Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol | Rhagfyr 2017 |
| Mae angen adolygiad o'r trefniadau cymorth cyntaf i sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf enwebedig, penodedig ar gael mewn argyfwng. | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6; 6.6.6 | 6.2.6 Mae bob amser o leiaf un aelod ychwanegol o staff yn y clinig deintyddol i ymateb i argyfyngau meddygol.<br><br>6.6.6 Mae diffibriliwr yn y practis.<br><br>Mae'r staff clinigol deintyddol wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r diffibriliwr allanol awtomatig. | Arweinydd Llywodraethu ac Ansawdd | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae cyfleusterau cymorth cyntaf yn bresennol yn y clinig.<br><br>Mae'r staff yn ymwybodol eu bod yn ffonio 999 mewn argyfwng. | | |
| Mae angen baddon llygaid ar y pecyn cymorth cyntaf. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Mae baddon llygaid wedi'i osod yn y pecyn cymorth cyntaf. | Rheolwr Nyrsio Deintyddol | Cwblhawyd |
| Mae angen polisi dadebru penodol ar gyfer y practis deintyddol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau/rôl mewn argyfwng. | 5.1 Mynediad amserol<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6; 6.6.6; 6.6.9 | Mae'r holl staff sy'n gweithio yng Nghyfarwyddiaeth y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn derbyn hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol ac argyfyngau meddygol yn flynyddol. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae cofnodion hyfforddiant yn cael eu storio'n electronig mewn ffolder TG ddiogel a rennir. Mae siartiau llif ar gyfer argyfyngau meddygol ar gael yn y pecynnau dadebru mewn argyfwng sydd | Rheolwr Llywodraethu ac Ansawdd Deintyddol | Medi 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | yn y clinig deintyddol. Bydd protocol dadebru lleol yn cael ei ddatblygu ledled Cyfarwyddiaeth y Gymuned. | | |
| | | | | |
| Mae angen i'r holl nyrsys deintyddol gwblhau hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), yn unol â gofynion eu cofrestriad proffesiynol. | 7.1 Y gweithlu | Mae'r holl nyrsys deintyddol cymwys a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'u cofrestriad proffesiynol, mae gofyn iddynt gyflwyno eu gofynion DPP cysylltiedig â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn flynyddol. Trafodir hyn â'u rheolwr llinell yn ystod eu harfarniad blynyddol. Cedwir cofnod o hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a chopi o'u tystysgrif hyfforddiant mewn ffolder TG ddiogel a rennir o fewn y Bwrdd Clinigol Deintyddol ar gyfer y nyrsys deintyddol hynny sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi radiograffeg. | Rheolwr Nyrsio Deintyddol | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid cyflwyno rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar gyfer y staff clinigol. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Mae rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar gyfer clinigwyr sy'n gweithio o fewn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol wedi cael ei rhoi ar waith. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2017. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwe mis (Mehefin/Rhagfyr). | Rheolwr y Gyfarwyddiaeth/Cyfarwyddwr Clinigol | Cwblhawyd |
| Mae angen gwella cofnodion cleifion trwy sicrhau bod yr holl gynlluniau triniaeth yn cael eu llofnodi ar gyfer gweithdrefnau Band 2 a 3, a thrwy sicrhau bod sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael ei gofnodi. | 3.5 Cadw cofnodion | Bydd staff deintyddol yn Nhreharris yn sicrhau bod yr holl gynlluniau triniaeth yn cael eu llofnodi ar gyfer triniaethau Band 2 a 3. Bydd y swyddog deintyddol yn sicrhau bod sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael ei gofnodi ym mhob apwyntiad archwilio ar gyfer pob claf. | Uwch-swyddog Deintyddol | 21 Gorffennaf 2017 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen adolygu'r ffeiliau polisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau mwyaf perthnasol. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Bydd yr holl gopïau caled o bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi mynd heibio i'w dyddiad yn cael eu gwaredu.<br><br>Mae'r Bwrdd Clinigol Deintyddol wrthi'n adolygu gweithdrefnau lleol ledled Cyfarwyddiaethau'r Ysbyty a'r Gymuned, yn unol â phroses weithdrefn | Rheolwr Nyrsio Deintyddol | 7 Gorffennaf 2017<br><br>Rhagfyr 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Caerdydd a'r Fro. | | |
| Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau gynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu. | 3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu | Mae'r Bwrdd Clinigol Deintyddol yn gweithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cymeradwy Caerdydd a'r Fro. Mae gan bob un o'r rhain ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu, ac maent ar gael i'r staff i gyd trwy'r system fewnrwyd TG. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras): Dinah Jones

## Swydd: Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol

## Dyddiad:

## Enw: Rowena Griffiths

**Swydd: Rheolwr Llywodraethu ac Ansawdd**

**Wedi'i gymeradwyo'n derfynol gan: Hayley Dixon**

**Swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau**

**Dyddiad:**